

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: rob@wennol.cymru

Cyfrol 7 Rhif 2

Yn rhad ac am ddim

Mai 2026



Sainsburys Abertawe

O.K. I'm sure you're asking why he's got a picture of Sainsburys on the front cover of The Wennol this month. Has he gone mad' totally doolally? Perhaps all the hard work he does has finally caught up with him?

And why is he writing this in English, it's Welsh we want, we can cope with English, we're pretty good at that! What we want is Welsh content.

Wake up Evans and stop this silly nonsense, get a grip!

O.K. I'll tell you why I'm writing this in English - I simply want you to understand what I am saying without you having to make an effort. You see, I've got this idea, this vision. As I see it the Senedd, when they had this big idea of one million Welsh speakers by 2050 seemed to totally ignore the

teaching of Welsh for adults. Their eyes were only on Welsh in the schools and, yes that is very important but however much success is achieved there the world outside school is dominated by English and we are being unfair to our young ones to expect them to battle that problem!

There are so many adults wanting to learn Welsh, people who are settled here and can, in a reasonable time, lend their various talents to inject fresh blood into the veins of our numerous societies, churches, chapels, choirs and so on. People who could help to fill our theatres and concert halls when Welsh entertainments are offered.

And isn't it true that the best way to really learn a language is to combine the theoretical aspect (the classroom) with the practical (the opportunity to chat freely and naturally). The

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

opportunity to chat helps a learner to make sense of all the grammar rules that build up in their brains.

So how does Sainsburys fit into this? Well Sainsburys have a cafe and plenty of free parking (up to 2 hours). So from Saturday May 9th there will be a Sadwrn Siarad in Sainsburys cafe at 10.30 until mid-day.

There will be Welsh speakers there and learners of all levels, we won't discuss grammar, all will be welcome to make any mistakes, no-one will get detention or a hundred lines.

There are two aspects to this, firstly the people all around will hear the Welsh language being spoken, some may come and talk to us, maybe sit down with us too.

Others will become more aware of our language and may wish to learn, especially when they realise that it is not just classwork, there is a support group to help their progress.

I chat with so many people who tell me they would love to learn Welsh. This would be an opportunity for them to fulfill that wish.

This should be done all over Wales in order to put the Welsh language and its speakers in full sight. It is a living language but we have to prove it!

Be sure to be in

Sainsburys Cafe, Swansea

on Saturday 9th of May at 10.30

and enjoy a

Sadwrn Siarad

A chance for you to practise your Welsh with other beginners, advanced learners, Welsh speakers, also Welsh speakers who have lost contact with the language.

Make friends, have a chat and speed your learning!

Blwyddyn o Glwb Clebran Caerwysg

Cymuned Fach - Effaith Fawr

gan Kevin Beaverstock



Ym mis Ionawr y llynedd, mi wnes i benderfynu dechrau clwb sgwrsio yng Nghaerwysg, ble dw i'n bwy yma yn Nyfnaint. Yr haf blaenorol, ro'n i'n gweithio i Brifysgol Abertawe a bob wythnos yn mynd i Glwb Clebran mewn tafarn yn yr Uplands, nes i fwynhau'r profiad o ddysgu'r iaith trwy siarad gyda phobl mewn ffordd anffurfiol.

Felly, nes i roi cwpl o bosteri lan yn y ddinas; un yn y llyfrgell, un yn y ganolfan celf, ac un yn y caffi yn y brifysgol. Sefydlaidd dudalen Facebook hefyd. Yr wythnos gyntaf, dechrau mis Ionawr 2025, roedd dim ond fi! Ond, yr wythnos wedyn, daeth menyw o Newton Abbot, a chawson ni sgwrs yn Gymraeg. Ar y drydedd wythnos, roedd tri ohonom. Ond, i fod yn onest, do'n i ddim yn siŵr, os byddai'r cynllun yn llwyddiannus. Ond, yn ffodus iawn, wnaeth ddwy arall ddechrau dod draw yn rheoliad, diolch Peter a Liz! Felly, pymtheg mis yn ddiweddarach mae'r clwb wedi tyfu'n gymuned fywiog, gyda saith neu wyth yn mynychu'n rheolaidd, ac weithiau hyd at ddeg neu mwy.

Mae rhai ohonon ni'n dod o Gymru yn wreiddiol, fel fi. Mae cysylltiadau teuluol â Chymru gyda rhai eraill. Mae rhai dim ond yn hoffi dysgu ieithoedd. Mae dysgwyr ar wahanol lefelau, a siaradwyr rhugl hefyd. Mae croeso i bawb! Yr hyn sy'n ein huno yw'r awydd i siarad - ac i barhau i siarad.

Un o gryfderau'r clwb yw ei natur anffurfiol. Nid oes gwersi ffurfiol na strwythur llym; yn hytrach, mae'r pwyslais ar sgwrs naturiol dros banded, neu beint. Mae hyn yn creu amgylchedd croesawgar i ddysgwyr, sy'n gallu ymarfer heb ofni gwneud camgymeriadau. I lawer, dyma'r unig gyfle rheolaidd sydd ganddynt i

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol go iawn.

Ar yr un pryd, mae'r clwb yn bwysig i siaradwyr rhugl. Mewn dinas fel Exeter, gall fod yn her cadw'r Gymraeg yn rhan o fywyd bob dydd. Mae'r clwb yn cynnig cyfle i'r iaith fyw ac anadlu, ac i'r siaradwyr hynny gadw eu cysylltiad â'u hiaith gyntaf. Yn aml, mae'r cyfuniad o ddysgwyr a siaradwyr rhugl yn creu deinameg ddiddorol a chefnogol, lle mae pawb yn dysgu rhywbeth gyda'i gilydd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, dyn ni hefyd wedi dysgu rhai gwersi ymarferol. Mae cysondeb yn allweddol: yr un amser, yr un lle, bob wythnos. Mae hyn yn helpu i greu arfer ac ymdeimlad o berthyn. Hefyd, mae'r elfen gymdeithasol yn hollbwysig – nid dim ond y Gymraeg ei hun, ond y cyfle i gwrdd, siarad a rhannu profiadau.

Wel, bron bob amser yr un lle. Mewn gwirionedd, un wythnos cawsom ni daith i fragdy lleol, The Topsham Tap, achos fod y bragwr yno yn siaradwr Cymraeg. A roddodd e daith o gwmpas y bragdy i ni yn y Gymraeg! Gwych! Diolch JD!

Felly, os ydych chi rhywbryd yng Nghaerwysg ar nos Fercher ac eisiau cael sgwrs yn y Gymraeg dros baned neu beint, gallwch ddod o hyd i ni ym Mar Pixy's, Stryd Gandy, 6-8. Cofiwch, mae croeso i bawb!

Diolch!

Kev Beaverstock

Y Defaid Colledig

gan Rob Evans

Roedd hi'n Sul y Pasg ac roedd nifer y gynulleidfa yn dipyn gwell nag arfer, roedd John wedi dechrau'r gwasanaeth, os dw i'n cofio'n iawn roedden ni wedi cyrraedd y gweddïau, a John newydd sylweddoli nad oedd David a Heulwen efo ni, mae David a Heulwen wastad efo ni!

Roedden ni'n poeni am hyn a John yn dweud y byddai'n ffonio nhw o'i gartref. Aeth y gwasanaeth ymlaen ond mewn ychydig o funudau clywon ni'r glicied ar y drws ac yna, yng nghefn yr eglwys oedd David a Heulwen.

Ataliodd John y gwasanaeth a cherddodd i lawr stepiau'r gangell i groesawu nhw. Ond! Roedd mwy. Roedden nhw wedi mynd i nôl Mari Williams, aelod ffyddlon cyn Cofid. Roedd yn rhyddhad i wybod bod David a Heulwen yn iawn ac yn llawenydd mawr i weld Mari unwaith eto!

Cofiais ddameg y defaid colledig a theimplais lwmp yn fy ngwddw. Roedd y cariad mor gryf roeddech chi'n gallu ei deimlo.

Roedden nhw'n hwyr o achos teiar fflat ac, i dilyn, batri fflat ar ôl defnyddio'r pwmp. Roedd rhaid cael gwifrau cyswllt i'w hachub.

Efallai wir fod ni'n gynulleidfa fach ond dyn ni'n deulu arbennig!

Os dach chi'n byw yn Abertawe a gyda diddordeb i ymuno â ni mi fydd croeso mawr i chi. Dyn ni'n cyfarfod yn eglwys Sant Iago (St James) yn Walter Road, Abertawe am 9.00 ar y 1af, 3ydd a'r 5ed (os oes) Sul y mis.



Clwb Clebran Cymraeg yng Nghaerwysg

Welsh Chat Club in Exeter

Cyfarfod bob nos Fercher
18:00-20:00

Pixy's, Gandy Street EX4 3LS

Meeting every Wednesday evening
18:00-20:00

Mae croeso mawr i siaradwyr a dysgwyr ar bob lefel



Speakers and learners at all levels are very welcome

Rhif cyswllt, contact number:


Cefin/Kevin 07796 563577

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Can we have this book reprinted please?

It is so useful in showing how new words grow from one base word. A fascinating insight into something that we take for granted because it is there in front of our very eyes.

Words develop in this way in all languages and Welsh is no exception. A glance into the pages of this book can help you instinctively work out what a particular word means once you can see how it is constructed.



The book is out of print but available online at silly prices. Below is an extract so that you can judge its importance for yourselves

Amser (amserau, amseroedd) m = time		
amserol = timely, opportune	anamserol = ill timed, inopportune	
	<i>cyd</i> = joint cydamserol = simultaneous	<i>cyn</i> = before cynamserol = premature
	amseru = to time	amserwr (amserwyr) = timekeeper(s)
amserydd (amserion) <i>m = chronologist(s)</i>	amseryddiaeth <i>m = chronology</i>	amseryddol = chronological

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Tudalennau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Joan Cooper

Helo Joan dw i. Nes i ddechrau dysgu Cymraeg achos wnaeth ddau ffrind ddweud wrtha i fynd i grŵp siarad yn Neuadd Newton. Doeddwn i ddim yn siarad Cymraeg ond es i beth bynnag. Doeddwn i ddim eisiau mynd i ddosbarth ond wnaeth y grŵp helpu fi i ddysgu.

Nes i brynu llyfr Heini Gruffudd "My Way with Welsh" sydd yn dda iawn. Hefyd dw i'n darllen llyfrau Cymraeg hawdd. Erbyn hyn dw i'n gallu cael sgwrs syml yn Gymraeg. Hefyd dw i'n gallu ysgrifennu straeon fel hyn.

Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg.

Cymru

gan Hellen Gymraeg

Gwlad y ddraig goch

Ble mae pawb yn canu

Gwlad y mynyddoedd mawr

Ble mae'r barcud coch yn hedfan

Gwlad y môr a chwch

Ble mae'r dolffin yn chwarae

Gwlad y rygbi cyffrous

Ble mae bechgyn yng nghoch yn ennill

Gwlad y glaw mawr

Ble mae'r glaswellt yn tyfu yn wyrdd

Gwlad y corau soniarus

Ble mae'r mynyddoedd yn canu


Gwlad yr afonydd llaes

Ble mae'r eogiaid yn neidio

Gwlad fy nhadau o'r amser maith

Ble mae'r heniaith dal yn parhau.

Cymru, y wlad gorau yn y byd! - Rob



Everything you need to enable you to learn Welsh, all in 90 easy to understand lessons.

Sound files relating to each lesson available free of charge, whether you buy the book or not.

Learn at your own pace and listen to the conversations at your leisure.

Find yourself a local group of learners so that you can take part in real conversations at an early stage.

Discover the pleasure that comes when you learn Welsh.

Pick up the book at your local Welsh shop for £19.99

And change your life!

For the sound files go to <https://www.ylolfaf.com/adnoddau-ychwanegol/my-way-to-welsh-audio-files.zip>

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Rhaglen 2026



Cymdeithas Hanes Bro Ogwr History Society

Yn yr haf mae gennym ni dau Ymweliad, gobeithio i gofio Iolo Morgannwg yng Nghefn Cribwr, a'r Gweithdy Haearn ac yn y Bont Faen

11 Mai am 7 ooh – **Ymweliad â'r Gweithdy Haearn** Cefn Cribwr gyda John a Carole Mason i gofio Iolo Morgannwg

8 Mehefin - **Ymweliad â'r Bontfaen** gyda Gareth Thomas i ddilyn llwybr Iolo Morgannwg

14 Medi **Iolo Morgannwg a Gwerin Morgannwg** Allan James yn y Tair Pedol ac ar Zoom

12 Hydref **Pwy oedd Myrddin go iawn?** David Callander ar Zoom

9 Tachwedd **Richard Burton** Daniel Williams

14 Rhagfyr **Parti Nadolig** Y Tair Pedol

Sgyrsiau yn y Gymraeg am Hanes a Diwylliant Cymreig i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg 7-30 yr ail Nos Lun pob mis ar Zoom ac weithiau yn y Tair Pedol, Cefn Cribwr
www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr

Ymweliad ag Amgueddfa Werin Cymru

gan Sarah Price



Ymwelais i ag Amgueddfa Werin Cymru - Sain Ffagan - am y tro cyntaf gyda fy rhieni yn y chwedegau, pan o'n i tua naw neu ddeg oed. Ro'n i wrth fy modd gyda'r profiad! Ro'n ni'n arfer mynd i amgueddfeydd yn aml, ond dim amgueddfeydd fel Sain Ffagan. Gallwn ni ddychmygu bywyd pobl a oedd yn byw amser maith yn ôl gan grwydro o gwmpas yr hen dai. Roedd e'n hudol i fi a chwmpais i mewn cariad gyda'r amgueddfa.

Dw i wedi mynd nôl sawl gwaith ers fy mhentyndod ond pan es i nôl gyda fy ngŵr yn 2023, roedd diddordeb arbennig gyda fi mewn hen eglwys yn yr amgueddfa, sef eglwys Sant Teilo. Adeiladwyd yr eglwys yn y 12fed neu 13eg ganrif ac roedd e'n arfer sefyll ger Pontarddulais (chi'n gallu gweld y safle gwreiddiol yn agos at gyffordd M4 Llanelli). Symudwyd yr eglwys i Sain Ffagan yn 1984-85. Ro'n i'n arfer gweithio fel golygydd a cyn i fi ymddeol yn 2021, ro'n i wedi gweithio ar lyfr am eglwysi hanesyddol gyda phennod am eglwys Sant Teilo. Roedd e'n ddiddorol iawn ymweld â'r eglwys ar ôl darllen amdano am y gwaith ac roedd e'n esgus da i fynd nôl i fy hoff amgueddfa. Siŵr o fod bydda i nôl yn Sain Ffagan eto cyn bo hir!

'Man' Styc yn y Fan

gan Rob Evans

Ar adegau o'r mis dw i'n treulio llawer o amser o flaen y cyfrifiadur ond pob hyn a hyn dw i'n gorfod cael brêc. Roedd hi'n ddiwrnod heulog a finnau wedi bod yn brysur am awr a mwy. Es i lawr i'r heulfan a darllen tipyn bach mwy o lyfr John Alwyn Griffiths, 'Dan ei Adain', llyfr ditectif da iawn ac yn Gymraeg hefyd! Wrth i mi ddarllen roeddwn i'n ymwybodol fy mod i'n

Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt Rhaglen 2025/26

18fed Mai - Huw Meredydd -
Caffis Eidalaedd Cymru

15fed Mehefin - Côr Tŷ Tawe

Peidiwch â bod yn swil
Mi fydd croeso mawr chi

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

clywed rhywun yn cnocio ar ddrws ond nid fy nrws i . Roedd y sŵn yn dod o ddrws nesaf ac roedd yn od iawn nad oedd fy nghymdogion yn ymateb.

Es i mewn i'r lolfa ac edrych allan o'r ffenest ac roedd fan mawr wen wedi bacio mewn i ddreif drws nesaf. Sylwais nad oedd wedi bacio mewn yn daclus chwaith ac roedd tolciau mawr ar ei ochr, byswn i ddim yn fenthyg fy nghar iddo.

Es i allan a sefais wrth yr ochr ond clywais dim sŵn, es i yn ôl at y tŷ ond cyn i mi gyrraedd y drws roedd cnociau uchel yn dod o gyfeiriad cefn y fan. Es i'n ôl ac agor y drws ar yr ochr. Roedd tu fewn mewn tywyllwch ond welai dyn ifanc yn cerdded tuag ataf. "Oh, thank goodness" medda fo "I've been stuck in there for twenty minutes!"

Beth oedd wedi digwydd roedd o wedi bacio i fyny slôp y dreif, agor y drws ar ochr y fan a cherdded i mewn i'r cefn a disgyrchiant wedi gwneud job dda o gau'r drws arno.

Hen dro ynte! Ond bysa hyn erioed wedi digwydd tasau Newton ddim wedi darganfod disgyrchiant!

Argyfwng yn y Mynyddoedd

Rhan 3.4

gan Mike Brown



Rhan 3

Roedd y llwybr yn gyson wrth iddo esgyn i mewn i'r niwl. O hyn ymlaen byddai'n rhaid iddo fod yn ofalus. Ond roedd y llwybr yn amlwg a'r gwelededd o leiaf 50 llath felly nid oedd angen cyfeirio at ei fap a'i gwmpawd eto. Roedd y bore yn mynd yn dda a theimlodd e'n falch ohono'i hun. O dan y flanced wen roedd tawelwch iasol a llonyddwch heddychlon. Roedd yr awyrgylch yn creu profiad myfyriol lle'r oedd yn teimlo'n un â'r byd. Doedd dim gwahaniad. Roedd popeth yn gysylltiedig. Y llwybr, y niwl, y mynydd a fe. Gyda'i gilydd mewn cytgorod yr ennyd.

Daeth e allan yn araf yn ôl i realiti'r dydd gan ddod yn ymwybodol o'r niwl yn tewychu. Roedd y gwelededd nawr efallai dim ond 15 llath. Ond roedd y llwybr llydan yn dal yn amlwg ac yn dal i fynd lan. Roedd yn deall y cyfuchlinau ac mae ei lwybr yn mynd lan yn gyson. Felly nid oedd angen cyfeirio at ei fap eto. Gwiriodd ei wats ac amcangyfrifodd y byddai hanner awr cyn byddai yn cyrraedd y copa. Roedd ei anadl yn gyson a gallai weld o'i wats bod cyfradd ei galon hyd at ei 120 arferol wrth gerdded i fyny. Amser am ddiod gyflym o ddŵr cyn symud ymlaen.

Ger y copa, lleihaodd y llethr a diflannodd y llwybr ymhlith y tir creigiog. Doedd dim gwair yma o ganlyniad i'r uchder, y tywydd, a gormod o droedio dros amser. Trwy'r niwl roedd yn bosibl gweld siâp ysbryd y garnedd enfawr a hefyd y lloches muriog y byddai pobl yn ei adeiladu i lochesu o'r gwynt. Fyddai dim angen am hwnnw heddiw ond fodd bynnag, roedd yn gyfleus er mwyn cael egwyl a rhywbeth bach i'w fwyta.

Rhan 4

Ar ôl dod o hyd i rywle cysurus i eistedd ar ei fat ewyn a ddefnyddiodd e ar gyfer inswleiddio, pwysodd yn ôl yn erbyn y wal a dadbacio ei sach deithio. Cawl poeth o'i fflasg gyda bara menyn oedd ei hoff bryd hydref/gaeaf pan oedd y tywydd yn oer. Byddai'n dilyn hyn gyda bar egni. Roedd yn well gyda fe beidio â bwyta gormod, dim ond digon i gadw ei lefel egni i fyny. Byddai'n bwyta pryd da yn ddiweddarach y noson honno gyda'i wraig yng nghynhesrwydd ei gartref.

Rhodd ugain munud o amser iddo'i hun cyn meddwl am y cam nesaf. Roedd e'n gwybod byddai'r ail-ddechrau yn anodd yn y niwl. Na fyddai lwybr iddo ddilyn ar y dechrau ac, yn y niwl, byddai ddod ar ei draws yn cymryd llawer o ofal. Ond roedd gyda fe'r sgiliau ac roedd yn ffyddiog na fyddai hyn yn broblem.

Penderfynodd gerdded yr ychydig o gannoedd o latheni cyntaf yn dilyn y cwmpawd dros y llawr caregog tan iddo gyrraedd llystyfiant eto. Wedyn byddai'n dilyn y cyfuchlinau yn ôl ac ymlaen tan iddo ddod ar draws y llwybr. Mewn golau dydd da na fyddai angen hyn, byddai'n gweld y llwybr. Ond yn y niwl byddai'n hawdd i'w golli. Tasa fe'n

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

ei golli, byddai dal yn gallu dilyn y cwmpawd ond byddai hyn yn anodd ac yn araf.

Ar ôl gwirio'r map a gosod y cwmpawd, pwyntiodd e at ddarn o dir ar ben pellaf ei welededd a cherdded tuag ato. Wnaeth hyn eto bob 30 i 40 llath a gadael y copa diffeithlyd tu ôl iddo. Daeth ar draws y grug eto ond am nad oedd wedi gweld y llwybr wnaeth e ddechrau chwilio wrth groesi i'r dde wedyn i'r chwith a pharhau ei daith i lawr y mynydd.

I barhau

Clwb Peldroed Wrecsam

Ein Clwb Ni

gan Sara Jones



Wel dyma ni, clwb pêl droed Wrecsam yn enwog trwy'r byd! Mae gen i deulu sy'n byw mewn gwledydd dramor ac maen nhw'n siarad â mi am CPD Wrecsam. Mae brodorion Cymru sy'n byw dramor yn gwylio'r gêm ar sianeli teledu Sky hefyd.

Dechreuodd fy niddordeb mewn pêl-droed pan oedd fy meibion yn ifanc ac roedd yn rhaid i ni fynd â nhw i'r gemau. Roedden nhw'n mwynhau gwisgo crysau newydd y clwb pob tymor. Dwi'n cofio rhuthro i siop Stuart Mason yn ystod fy egwyl ginio o'r gwaith i brynu pethau pêl-droed. Y tro cyntaf i mi fynd i wyllo gêm 40 mlynedd yn ôl oedd gêm rhwng Wrecsam a Hereford United ar y Cae Ras. Rhaid i mi gyfaddef roedd yn brofiad braidd yn ddiflas.

Mae hanes CPD Wrecsam yn mynd yn ôl i'r 19eg ganrif. Defnyddiwyd cae ras ar gyfer gêm ryngwladol rhwng Cymru a'r Alban. Mae amgueddfa newydd pêl-droed Wrecsam yn agor yn fuan lle gellir gweld yr holl ffeithiau hanesyddol.

Mwynhaodd clwb pêl-droed Wrecsam amser eithaf da yn y 90au. Yna dilynodd lawer o gyfnodau da a drwg ac aeth y clwb allan o gynghrair bêl-droed Lloegr yn 2008. Ar ôl 15 mlynedd mewn gemau di-gynghrair cafodd Wrecsam ei ddyrchafu i'r gynghrair bêl-droed tair blynedd yn ôl. Angerdd dros bêl-droed mewn dau actor enwog o Hollywood â newidiodd popeth. Fe wnaethon nhw fuddsoddi llawer o arian yn y clwb. Mae'r clwb wedi mynd o nerth i nerth ac maen nhw nawr yn chwarae yng nghynghrair y pencampwyr.



Mae hyn wedi arwain at ddenu llawer o gefnogwyr newydd i'r clwb ac mae'r gemau'n cael eu chwarae i stadiwm dan ei sang. Mae'n bleser mawr gwylio'r gemau nawr. Dwi'n eu gwyllo ar deledu Sky o gysur fy soffa. Mae'n fraint gweld y ddrama'n datblygu ar y cae gyda chwaraewyr dawnus ac actorion golygus yn mwynhau eu hunain.



Mae stadiwm newydd wedi'i adeiladu erbyn hyn ac mae'n gyffrous iawn. Bydd amgueddfa pêl-droed hefyd ar agor yn yr haf. Bob tro mae gêm yn cael ei chwarae gartref, mae fy wyrion yn dod â rhaglen swyddogol i mi.



Dwi'n mwynhau darllen y dudalen iaith Gymraeg, mae'n fy helpu i ddysgu'r iaith. Mae'r clwb yn hyrwyddo defnyddio'r iaith yn weithredol. Mae'r perchnogion o Hollywood hefyd yn cydymdeimlo â'r iaith.

Mae hanes CPD Wrecsam yn un ddiddorol. Dymunaf y gorau iddyn nhw at y dyfodol.

What about writing your story for the Wennol? It doesn't need to be long because learners at all stages want to read the Wennol.


Who knows, perhaps you would enjoy the experience!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Cerddoriaeth Gymraeg

gan Anthony Morgan

Yn Wennol mis Ebrill roedd Anthony wedi sôn am adduned i wrando ar un albwm Cymreig bob wythnos a gofynnais iddo bysa fo'n hoffi cael colofn fisol am gerddoriaeth Gymraeg yn Y Wennol. Cytunodd, a dyma ni!




Gyda'r gwanwyn, mae'r tymor gwyliau cerddorol yn cyrraedd. Beth sy'n well na gwrando ar gerddoriaeth yn fyw yn yr heulwen? Wel, gobeithio yn yr heulwen. Mae gwyliau yn ffordd ardderchog i ddangos yr amrywiaeth o gerddoriaeth Gymraeg ac i chi ddarganfod eich hoff fand newydd. Tu allan o dymor y gwyliau, mae llawer o ffyrdd i archwilio cerddoriaeth Gymraeg, gan gynnwys sioeau Huw Stephens a Mirain Iwerydd ar Radio Cymru, Stiwdio 24/7 ar S4C ac eich lleoliad cerddoriaeth leol.

Dw i ar genhadaeth i ddarganfod mwy o gerddoriaeth Gymraeg gan wrando ar un albwm yr wythnos drwy 2026. Mae'n ddigon hawdd i wneud, gyda chymaint o gerddoriaeth anhygoel hen a newydd. Yr her fwyaf yw beth i ganolbwyntio arno.

I ddechrau, albwm o'r 1990au. Nid Cŵl Cymru yw e, ond gwerin draddodiadol, y fath o gerddoriaeth mae rhan fwyaf o bobl yn cysylltu â Chymru. Cafodd Caneuon Traddodiadol Cymru gan Siwsann George ei rhyddhau ym 1994 ac mae e'n cynnwys sawl hen ffefrynnau, fel Cân Merthyr a Hen Ferchetan. Mae llawer o gantorion wedi canu'r caneuon hyn, ond dim llawer gyda chymaint o angerdd. Mae'r gân A Miner's Life yn llawn arwyddocâd, yn enwedig i unrhyw un o gyn-gymuned glofaol, ac yn rhoi llais i ganrifoedd o ddieter a brwydr. Mae rhai o'r caneuon yn fwy o hwyl ac yn ysgafngalon fel Bachgen Bach o Dincer, wedyn mae caneuon sy'n codi hiraeth, fel Adar Mân Y Mynydd. Dyma

albwm swynol gan gantores dalentog ac amryddawn a'r dewis perffaith os ydych eisiau gwrando ar werin Cymraeg go iawn.

Os ydych chi yn yr hwyl am rywbeth mwy mympwyol, efallai bydd Mill on the Hill gan



Felin Felyn yn berffaith. Llawn hiwmor absŵrd a geiriau lliwgar, mae'r "concept album" yn dweud y stori am felin ble mae cerddoriaeth yn cael eu creu. Mae'r felin yn sefyll ar ben bryn sy'n

edrych dros bentref llawn cymeriad diddorol, gan gynnwys aelodau'r band sy'n gweithio yn y felin. Maen nhw'n creu cerddoriaeth sy'n cymysgu roc seicedelig, pop, gwerin a cherddoriaeth gwlad. Wedyn, mae'r gerddoriaeth yn llifo dros y pentref a'r wlad o gwmpas ac yn eu swyno.

Y canlyniad yw llun byw yn eich meddwl o bentref hudol a'i melin felen gerddorol. Yn bersonol, allwn i ddim peidio meddwl am raglenni i blant o'r saithdegau. Ac, am ryw reswm, pan dw i'n gwrando ar Dail, mae e'n atgoffa fi o Chorlton and the Wheelies.

Er mae'r albwm yn lliwgar ac yn hwyl, mae 'na agwedd difrifol iddo fe hefyd. Mae'r felin dan fygythiad ac mae'r band yn gweithio'n galed i'w gwarchod ac yn cadw'r gerddoriaeth yn llifo. Mae hon yn adlewyrchu'r sefyllfa dros Gymru a thu hwnt ac mae'r band yn awyddus i annog pobl mynd i leoliadau cerddoriaeth leol i helpu nhw barhau.

Cafodd Mill on the Hill ei enwebu am Wobr Cerddoriaeth Gymreig 2025 ac mae'r rhestr fer yn llawn albymau anhygoel. Os ydych eisiau darganfod cerddoriaeth Cymraeg (a Chymreig) newydd, dyna le gwych i ddechrau. Hefyd, mae Gwobr Selar yn dathlu'r artistiaid Cymraeg gorau ac mae e'n lle gwych arall i ddod o hyd i gerddoriaeth ardderchog ac amrywiol.

Yn olaf, os ydych eisiau cefnogi bandiau a lleoliadau cerddoriaeth gan fynd i gig, gallai'r ap 'awni' eich helpu chi ddod o hyd i'ch un nesa. Mwynhewch eich taith gerddorol ac, os ydych yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

ddigon lwcus i fynd i wyl gerddoriaeth, croesi bysedd am y tywydd.

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Y cyntaf o Fawrth 2026– Dathliad yr Anthem, ‘Hen Wlad fy Nhadau’, a Dydd Gŵyl Dewi ym Maesteg

Adolygiad gan Nesta Humphreys



Cafodd ein hanthem ei ganu am y tro cyntaf ym Maesteg 170 mlynedd yn ôl. Faint ohonoch chi'n sy'n gwybod hynny? Wel, mae'n wir!

Diolch i Fenter Iaith Bro Ogwr am drefnu cyngerdd yn Neuadd y Dref Maesteg i ddatlu hyn, Dydd Gŵyl Dewi ac i nodi 200 mlynedd ers sefydlu Maesteg.

Roedd y neuadd yn llawn dop ac roedd yn hyfryd i glywed corau a phlant o'r ysgolion lleol yn canu. Hefyd, diolch i ddawnsyr Pen-y-fai am eu perfformiad. Mwynhaodd pawb y cyngerdd ac mae rhaid i mi sôn am y sgwrs ardderchog am hanes yr anthem gan Richard Cleaves, Cadeirydd Cymdeithas Hanes Bro Ogwr.

Hen Wlad Fy Nhadau – Ysgrifennwyd yr anthem gan Ieuan ap Iago ac Iago ap Ieuan yn 1856. Ysgrifennon nhw'r anthem mewn ymateb i lythyr oddi wrth frawd Ieuan ap Iago a oedd wedi gadael Cymru am yr Unol Daleithiau i chwilio am fywyd newydd. Roedd e eisiau Ieuan ymuno ag e ond ateb Ieuan oedd y geiriau angerddol rydyn ni'n bellach yn eu hadnabod fel ein hanthem. Dysgon nhw'r anthem i fab Myfyr Morgannwg (John Davies neu ap Myfyr) ac wedyn dysgodd e'r anthem i'w gariad, Elizabeth John.

Roedd Elizabeth wrth ei bodd yn canu a gofynnwyd iddi ganu mewn cyngherddau'n aml. Cafodd hi ei gwahodd i ganu mewn cyngerdd

Dydd Gŵyl Dewi yng Nghapel Tabor, Maesteg. Ar y pryd roedd Maesteg yn dref ddiwydiannol a oedd yn tyfu gyda gweithfeydd haearn a phyllau glo. Doedd Elizabeth ddim yn siŵr am y daith i le anhysbys a beth i'w ganu. Fodd bynnag, perswadiodd ei chariad hi i fynd a chanu'r anthem nad oedd neb wedi'i chlywed o'r blaen. Felly ar nos Sadwrn Ddydd Gŵyl Dewi 1856 canwyd yr anthem gan Elizabeth fel 'dawns gyflym' yng Nghapel Tabor, Maesteg am y tro cyntaf. Roedd Elizabeth a'r anthem yn llwyddiannus iawn.



Cafwyd yr anthem ei chanu yn Eisteddfod Leol Trehopcyn yn 1856 ac wedyn roedd pawb yn ei chanu ar y strydoedd. Wrth gwrs, dw i wedi dweud 'anthem' ond ar y pryd dim ond cân boblogaidd oedd hi nid 'anthem'. Dyma hanes yr hyn a ddigwyddodd dros y blynyddoedd i droi cân boblogaidd yn anthem i ni.

1858 – enillwyd casgliad o ganeuon yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llangollen gan gynnwys Hen Wlad Fy Nhadau a oedd wedi addasu mewn pedwar llais ac yn arafach.

1860 – cyhoeddwyd y gân mewn llyfr, 'Gems of Welsh Melody', a pherfformiwyd y gân am y tro cyntaf gan gôr a cherddorfa yn Aberdâr.

1887 – ar ôl 'God Save the Queen' yn yr Albert Hall, canodd y gynulleidfa Mae Hen Wlad Fy Nhadau a safodd Tywysog Albert mewn parch.

1899 – y recordiad cyntaf gan The Gramophone Company gyda Madge Breeze.

1905 – Ym Mharc Arfau Caerdydd pan oedd Cymru yn chwarae yn erbyn Seland Newydd canodd pawb yr anthem fel ymateb i'r Haka, y tro cyntaf cyn gem ryngwladol.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

1953 – Yng Nghymru chwaraeodd y BBC yr anthem ar ddiwedd y rhaglenni ar y radio.

1970 – Sgoriodd Chico Hopkins (Maesteg) gais yn erbyn Lloegr yn Twickenham ond ar y pryd roedd dadl fawr am ganu Mae Hen Wlad Fy Nhadau mewn gemau.

1974 - Gwrthododd RFU i chwarae Mae Hen Wlad Fy Nhadau yn Twickenham ond gwrthododd Merfyn Davies a'i dîm i symud ar ôl yr anthem Lloegr: roedden nhw'n sefyll mewn cylch ar y cae.

1977 - Gwrthododd yr FA i chwarae'r anthem yn Wembley ond canodd Terry Yorath, a'i dîm a'r dorf yr anthem ar ôl anthem Lloegr.

2026 – Nawr mae'r dorf yn canu'r anthem heb gerddoriaeth nid yn unig cyn y gêm ond trwy'r gêm hefyd. Wrth gwrs rydyn ni i gyd yn gwerthfawrogi'r anthem ac yn ei chanu yn aml.

Diolch yn fawr iawn i Richard Cleaves am ei ymchwil. Rydyn ni i gyd wedi dysgu llawer am hanes yr anthem.

Digwyddiad nesaf - Nos Lun, 11 Mai am 7 ooyh – Ymweliad â'r Gweithdy Haearn Cefn Cribwr gyda John a Carole Mason i gofio Iolo Morgannwg

Os bydd diddordeb gyda chi, rhowch wybod i mi,

nestahumphreys@btinternet.com

Mae tudalen Facebook gyda'r Gymdeithas a dyma'r ddolen.

https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr/?locale=en_GB

Do you want to feel good?

Be part of The Wennol!

The Wennol has grown a great deal since the first issue in 2020 and I'm sure has helped a great deal of Welsh learners with both their reading and writing skills

Would you like to see your story in print?

Yr Ystlum

gan Carin Harris



Annwyl ystlum du
dwyt ti ddim fel fi,
Rwyt ti'n rhydd fel yr awel
yn hedfan ar hap ac yn dawel,
Trwy'r awyr dros fy ngardd
Nid arswyd....rwyd ti'n hardd,

Gwyrth brydferth i fi
annwyl ystlum du

Reading

As I've said before reading is a very important part of learning. In your lessons you get the rules but reading gives you the practical. Get hold of a children's book to start with and work up as your studies progress.

Romeo a Juliet Rhan 2

gan Liz Kelly



Sam Wanamaker Playhouse

Sam Wanamaker oedd y dyn oedd wedi cael y syniad o ail-greu'r theatr Glôb ac mae'r Sam Wanamaker Playhouse yn seiliedig ar blueprints o theatr Llundain o'r oes Shakespeare. Treuliodd Sam Wanamaker dros 20 mlynedd yn ymgyrchu a chodi arian i realeiddio'r prosiect. Roedd Theatr Glôb wedi cael ei adeiladu gyda

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

chynlluniau i hefyd adeiladu theatr arall ond dim yn yr awyr agored. Os dych chi'n ymweld â'r Glôb i weld perfformiad, dych chi yn yr awyr agored. Ar y wefan, yr ateb i'r cwestiwn – "A fydden ni'n cael ein gwlychu? Yw "Byddwch." Yn y Sam Wanamaker Playhouse dych chi'n fwy cyfforddus tu mewn theatr grand a chwaethus, os nid yn rhy gyfforddus!

Rhaglen a chyfweliad

Bron wythnos ar ôl y perfformiad welais i raglen y perfformiad. Mae'n llawn gwybodaeth am y sioe a'r actorion. Mae'n ar gael ar wefan Theatr Cymru.

Steffan Donnelly yw Cyfarwyddwr Artistig a Chyd-Brif Weithredwr Theatr Cymru. Yn ddiweddar, mae wedi ei enwi fel Artist Cyswllt yn Glôb Shakespeare.

Ar lein wnes i dysgu tipyn cyn y sioe trwy ddarllen cyfweliad gyda'r brif actores a gyda'r cyfarwyddwr Steffan Donnelly. Roedd un wedi cael ei ddarlledu mewn grŵp Zoom fel sesiwn arbennig gydag Eirian Conlon o Ddysgu Cymraeg. Roedd Eirian Conlon yn sgwrsio â Steffan Donnelly, cyfarwyddwr y ddrama ac Isabella Colby Browne sy'n chwarae rhan Juliet. Steffan Cennydd oedd yn chwarae rôl Romeo. Dw i wedi gweld Steffan Cennydd yn actio mewn sawl drama ar S4C. A dweud y gwir, roedd sawl actor yn y sioe dw i'n eu hadnabod o S4C.

Gofynnodd Eirian i Steffan Donnelly, pam gwneud perfformiad dwyieithog? Roedd ei ateb yn glir - mae llawer o ddramâu modern yng Nghymru ac mae pobl yn debyg wedi dysgu am Romeo and Juliet yn yr ysgol neu yn gyfarwydd â'r stori o ffilm Romeo and Juliet. Mae'n ddrama glasurol ac mae'n syniad da i gadw nhw ar flaen y gynulleidfa. Ychwanegodd bod chi'n gallu gweld y gwahaniaeth rhwng y ddau deulu - gwahaniaeth drwy ddyluniad ei wisg e.e. a chlywed y gwahaniaeth yn eu siarad. Mae Montagues yn siarad Cymraeg, ac mae Capulets yn siarad Saesneg ond mae dau deulu yn gallu deall ei gilydd.

Mae Steffan yn dweud ei fod e'n hollol berthnasol i bobl sy yn y proses o ddysgu Cymraeg, neu wedi dysgu Cymraeg. Ro'n i'n falch o glywed hynny. Steffan oedd wedi plethu'r ddwy sgript - Shakespeare yn Saesneg a'r cyfieithiad gan JT Jones. Dwedodd e fod

defnyddio'r ddwy iaith yn gallu dweud rhywbeth mwy am y cymeriadau.

Esboniodd Steffan yn y cyfweliad bod y cyfieithiad ar yr un lefel a'r farddoniaeth ac mae'r ddwy iaith yn gallu cyd-chwarae. Doedd Steffan ddim eisiau cyfieithiad newydd - roedd e'n gwerthfawrogi'r fersiwn JT Jones.

Mae'r cynhyrchiad yn eithaf amwys am bryd yn union mae wedi gosod. Achos mae'r iaith Cymraeg mor farddonol, dwedodd Steffan fod e'n bwysig i anrhydeddu hynny, yn herio'r gwreiddiol Shakespeare. "Y metr, yr odl, y rhythm, i gyd yr un fath", yn wir i'r gwreiddiol, ond weithiau mae idiomau yn newid. Dwedodd e fod y testun yn teimlo'n agos at iaith Shakespeare.

Mae Isabella Colby Browne wedi bod yn dysgu Cymraeg ers 2022, yr un adeg â fi, ond mae hi wedi dysgu llawer mwy na fi dros y tair/pedair blwyddyn! A dweud y gwir, safodd hi'r arholiad TGAU yn Gymraeg yn yr ysgol a dysgodd eto fel oedolyn, gydag angerdd. Gwnaeth Isobel ddod ar draws siaradwr rhugl i siarad gyda hi. Dwedodd ei bod hi wedi astudio rhai cyrsiau dwys a hefyd yn Nant Gwrtheyrn. Actiodd hi mewn drama yn Gymraeg hefyd yng Nghaerdydd. Cafodd Isabella ei geni yn yr Wyddgrug ond nawr mae hi'n byw yng Nghaerdydd. Dwedodd yn y cyfweliad roedd y rôl yn gwireddu ei freuddwydion a bod hi'n hapus i fynd yn ôl i weithio mewn siop coffi ar ôl hyn. Dwedodd hi hefyd wnaeth hi weithio yn galed dros y blynyddoedd i ddeall Shakespeare. Mae'n rhaid bod hynny wedi ei helpu hi gyda'r cynhyrchiad. Enillodd medal Bobi Jones yn Eisteddfod yr Urdd 2024.

Learning a Language

In your childhood you learned a language without thinking, you didn't know the meaning of words like 'verbs' and 'nouns' but you still marched on and gradually perfected your first language. Clever? No, not particularly.

Learning grammar in a class without a good balance of the practical just fills your brain with theory. You need to use your new language from the very beginning. Join a group of Welsh learners in order to practise conversations. Write something about yourself and send it to The Wennol. Read a book that is at a suitable level and don't worry about understanding. It will come, I promise!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Diwydiant yn Ein Lôn

gan Fred Green

Ychydig flynyddoedd yn ôl, dechreuodd diwydiant bach Cymreig yn ein lôn dawel, diolch i ddwy fenyw hyfryd. Dwy fenyw sy'n byw yma, gyda dwy fath o gynnyrch, dwy wefan sy'n hysbysu eu nwyddau gwahanol

Dyn ni'n byw mewn lôn gul dawel yng nghefn gwlad gorllewin Sir Gâr. Mae'r lôn yn mynd lawr y cwm, dros y nant a lan y cwm. Dim ond un ar ddeg o dai, yn cynnwys dwy fferm, sy ar y lôn o dros filltir, ac wrth gwrs dyn ni'n nabod ein gilydd yn dda. Heblaw am yrwyr dosbarthu a thraffig fferm does dim llawer o gerbydau'n defnyddio'r lôn

Mae cefndir gwahanol gyda'r menywod, ond trwy gyd-ddigwyddiad, mae pethau yn gyffredin gyda nhw hefyd.

Teiliwr a dylunydd dillad profiadol a medrus yw Catherine. Yn wreiddiol, cafodd hi radd mewn dylunio a chelf tecstilau ym M h r i f y s g o l Caerwynt, ac ar ôl raddio, cafodd ei phrofiadau cyntaf yn gwneud dillad i'r llwyfan gan weithio mewn theatrau.



Catherine yn ei gweithdy

Trefnodd hi gwrs celf breswyl yng ngorllewin y Ffindir trwy ffrindiau a thra roedd yn aros yno daeth yn ymwybodol o goleg a oedd yn cynnig cwrs teilwres diwydiannol yn y dre. Mynychodd hi'r cwrs yno, er bod y cwrs drwy gyfrwng y Swedeg.

Felly, dysgodd Catherine Swedeg (gyda chymorth ffrindiau) yn ystod y cwrs (mae hi'n dweud yn wylaidd ei bod hi'n deall sut i wnïo). Fel rhan o brofiad gwaith y cwrs, treuliodd hi gyfnod yn gweithio i Dŷ Opera Tallin yn Estonia yn helpu gwneud gwisgoedd ar gyfer cynhyrchiad o 'Il Barbiere di Siviglia'. Gwnaeth hefyd gweithio mewn 'atelier' gwisgoedd carnifal yn Fenis.

Ar ôl y cwrs, arhosodd Catherine yn Ewrop a symudodd hi ymlaen i wneud gradd meistr yn Barcelona ble astudiodd hi ddylunio gwisgoedd ar gyfer y theatr, opera a sinema, ac ar ôl gorffen y cwrs yn llwyddiannus, gweithiodd hi mewn adran teilwra i ddynion o fewn siop adnabyddus Santa Eulalia. Treuliodd hi saith mlynedd yn Barcelona a daeth hi'n rhugl yn Sbaeneg a Chatalaneg cyn dychwelyd i Gaerdydd.

Yn ôl yng Nghaerdydd, ymhlith pethau eraill, dyluniodd hi wisgoedd ar gyfer actorion gydag anabledau gyda chwmni theatr Hijinx a Taking Flight.

Cafodd hi syniad am brosiect i wneud cotiau allan o hen garthenni, sef prosiect o'r enw 'Blancot' a cheisiodd hi am grantiau i gynnal y prosiect oedd yn cynnwys gweithdai gwnïo wythnosol yn Oasis Caerdydd; elusen sy'n cefnogi mewnfydwyr a cheiswyr lloches.

Yn 2023 llwyddodd i gael grant gan y Gronfa Treftadaeth ar gyfer syniad arall, sef prosiect 'Cot Wlân Gymreig a gwneud Wrth Fesur'. Prosiect dwy flynedd oedd hon yn dathlu treftadaeth wlân Cymru a derfynodd gydag arddangosfa yn Amgueddfa Sain Fagan o grysau, cotiau a siacedi wedi'u teilwra o ddefnydd Cymraeg wedi'i gwehyddu. Fe wnaeth y grant barhau i ariannu'r gweithdai gwnïo wythnosol yn Oasis gyda chyfranogwyr yn gwneud eitemau llai allan o doriadau gwastraff defnydd y prosiect.

Pum mlynedd yn ôl prynodd hi dŷ yn ein lôn ni, a symudodd yma. Mae hanes ei theulu yn yr ardal, cafodd mam Catherine ei magu ar ffarm ym Mhentregalar, ac felly mae hi'n teimlo'n



Catherine wrth ei Gwaith

eithaf cartrefol yma. Trefnodd hi weithdy ar bwys ei thŷ ble mae hi'n defnyddio hen garthennau i wneud cotiau a siacedi ffasïynol a golygus a wnaed wrth fesur. Dych chi'n gallu gweld enghreifftiau ar ei gwefan: <https://www.teilwrbach.com/>.

Mae hi wedi buddio hefyd o grant 'Arfor' C yngor Sir Gâr sydd wedi ei galluogi i greu

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

swydd Gymreig, a dyna sut mae ei chymdoges Xanthe yn gweithio iddi.

Mae Catherine hefyd yn aelod balch o gôr lleol, Corlan ac yn chwarae'r soddgrwth gydag ensemble Teifi Strings. Mae hi newydd ddechrau maethu baban bach ac mae hi'n edrych yn hapus iawn.

Dim ond dau ganllath o dŷ a gweithdy Catherine mae Xanthe yn byw a gweithio. Symudodd hi gyda'i gŵr Gareth i'r hen ysgol yma bron ugain mlynedd yn ôl. Daeth hi fan hyn o Nottingham ble oedd hi'n astudio dylunio theatr. Roedd hi'n gweithio fel dylunydd theatrau ar ei liwt ei hun am sbel yn Lloegr cyn iddi hi symud i Gymru.

Pan roedd Xanthe yn ddisgybl yn yr ysgol, cafodd gwis ei roi i'w dosbarth i awgrymu gyrfaoedd posib i'u dyfodol. Chwarddodd Xanthe am yr awgrym i fod yn ddylunydd sgidiau ond oedd yr awgrym yn dyngedfennol neu'n ddylanwadol?

Ar ôl i Xanthe symud yma, defnyddiodd hi ei sgiliau fel dylunydd i gynllunio a gwneud sgidiau croen dafad mewn siop mewn tref gyfagos. Roedd y gwaith yn bleserus iddi hi ac roedd y cwsmeriaid yn hoffi ei hesgidiau.

Yn ogystal â gwneud sgidiau, gweithiodd hi a'i gŵr i drawsnewid yr hen ysgol ble maen nhw'n byw. Roedd

rhaid iddyn nhw ymdopi mewn adeilad bach yn yr ardd am sbel, ond yn y diwedd cafon nhw gartref sy'n addas i ddangos yn y cylchgrawn 'Country Living' ac ym mhapur yr 'Observer' hefyd

Mae hi'n cadw ychydig o ddefaid prin sy'n cynhyrchu cnuoedd a chig.



Xanthe y Fugeilwraig

Roedd Xanthe wrth ei bodd yn dysgu Cymraeg mewn cwrs i oedolion hefyd, er gwaetha Cofid a rhyngwyd gwael, ac aeth ei phlant i Ysgol y Preseli i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hi'n ymarfer siarad Cymraeg â Catherine.

Yn y diwedd, ar ôl i'r siop yn Arberth gau, penderfynodd hi sefydlu busnes ar ei phen ei hunan, busnes sy wedi dod yn llwyddiannus gyda gwefan: <https://xantheanna.uk/>.

Mae defnyddio deunyddiau mor gynaliadwy ac ecolegol â phosib yn rhywbeth pwysig i Xanthe. Mae hi'n dewis deunyddiau organig neu wedi'u hailgylchu i leihau effaith amgylcheddol, a deunyddiau o ansawdd uchel i wneud yn sicr bod yr esgidiau'n para. Gall cwsmeriaid ddewis lliw'r sgidiau, y dyluniad ar y sodlau a pha mor drwchus yw'r gwadnau. Felly bydd pob esgid yn unigryw i'r cwsmer. Mae'n hawdd amnewidio'r mewnwadnau (sy ar gael wrth Xanthe). Mae Xanthe yn falch o wneud ei hesgidiau i'r safon uchaf ac mor wydn â phosib.

Mae hi'n gwerthu esgidiau dros y byd, ond nid i Ewrop ar hyn o bryd oherwydd Brexit. Gall cwsmeriaid sy ddim yn byw yn lleol anfon diagram amlinellol o'u traed a mesuriadau eraill. Fel arfer mae'n gyfnod prysur iddi hi cyn y Nadolig.

Does dim syndod bod dwy gymdoges sy'n gwnïo yn mwynhau cwmni ei gilydd, a threuliodd Xanthe tipyn bach o amser yng



Catherine a Xantha yn gweithio gyda'i gilydd



Xanthe o flaen ei thŷ
Yr Hen Ysgol



Gweithio'n ofalus

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

ngweithdy Catherine er mwyn dysgu sut i wneud siaced (gyda chymorth fideo ar-lein) ac ymarfer siarad Cymraeg.



Enghreifftiau o sgidiau a sliperi

Yn y pen draw, does dim dwywaith amdani, halen y ddaear yw'r ddwy. Maen nhw'n gyfeillgar ac yn gymwynasgar at bawb. Dyn ni'n lwcus iawn i gael dwy gymdoges fel nhw. Pob lwc iddyn nhw yn y dyfodol.

Gerddi Aberglasne

Rhan 1: Hanes

gan Martin Jones

Heddiw, Aberglasne ydy un o erddi gorau Cymru. Felly, er gwaethaf hanes sy'n dyddio yn ôl i'r canol oesoedd, mae'n anodd credu, erbyn y 1990au, roedd y gerddi a'r plasty ar fin dadfeilio'n llwyr. Ond, diolch byth, ym 1995 camodd Ymddiriedolaeth Adfer Aberglasne i'r adwy a phrynu'r tŷ a'r gerddi ar ôl derbyn rhodd ariannol gan gymwynaswr o America, Frank Cabot. Yn anhygoel, o ystyried ei gyflwr, diolch i haelioni rhoddwyr unigol, grantiau gan nifer o gyrff statudol ayyb - a llawer o waith caled - ail-agorwyd Aberglasne i'r cyhoedd dim ond pedair blynedd yn ddiweddarach ym 1999.

Mae'r cyfeiriad cyntaf i'r gerddi i'w gael mewn cywydd o'r canol oesoedd gan Lewis Glyn Cothi i Rhydderch ap Rhys:

Iddaw fo mae neuadd falch
Ac yn wengar gan wyn galch,
Ac o gylch oglych i hon
Naw o arddau yn wyrddion.
Perllanwydd a gwinydd gŵyr,
Derw ieuanc hyd yr awyr.

He has a proud hall
A fortress made bright with whitewash,
And encompassing it all around
Nine green gardens.
Orchard trees and crooked vines,
Young oaks reaching up to the sky.

Ond mae'n rhaid i ni aros tan gyfnod y Tuduriaid i gael cofnodion da o hanes Aberglasne. Tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, prynwyd Aberglasne gan Anthony Rudd, Esgob Tŷ Dewi. Ailadeiladodd e, a'i fab Syr Rice Rudd, y plasty a chreu Gardd y Cloestr - yr unig un o'i fath sydd wedi goroesi yn y Deyrnas Unedig o oes Elizabeth..

Ym 1670 dangosodd asesiad am y dreth aelwyd bod 30 o aelwydau yn y tŷ, hyn yn golygu taw un o dai mwyaf y wlad oedd Aberglasne. Ond roedd Syr Rice wedi gorwario ar y gwaith adnewyddu a gorfodwyd ei wŷr i forgeisio'r ystâd, a dros y canrifoedd i ddod newidiodd Aberglasne ddwylo sawl gwaith.

Ym 1710, prynwyd yr ystâd gan Robert Dyer, cyfreithiwr o Sir Gâr, a oedd yn gyfrifol am nifer o ddatblygiadau. Ailwampiodd y tŷ yn sylweddol yn null y Frenhines Anne, tra yn yr ardd dechreuodd twnnel yr yw ei oes. Hefyd cafodd wared ar fur y cwrt blaen ac o ganlyniad mae'r porthdy bellach yn sefyll ar wahân i'r tŷ fel un o nodweddion yr ardd.

Yn ystod y ddeunawfed ganrif, roedd Aberglasne ym mherchenogaeth Thomas Phillips, cyn Prif Lawfeddyg yr "Honourable East India Company," a'i nai, John Walters Phillipps. Ac yn y cyfnod hwn, ychwanegwyd y portico a'r ffenestri bae ac addaswyd llinell y to i roi i'r plasty ei wedd bresennol. Yn ychwanegol, gwnaeth John Walters Phillipps nifer o welliannau i'r ystâd, gan gynnwys adeiladu'r hen dylciau moch a'r hen feudai.

Yn ystod yr ugeinfed ganrif, nid yn unig newidiodd Aberglasne ddwylo nifer o weithiau ond hefyd cafodd yr ystâd eu rhannu. Ar ôl 1977 - gyda neb yn byw ynddo fe - cafodd Aberglasne ei esgeuluso, ei fandaleiddio, a'i adael i ddadfeilio nes i Ymddiriedolaeth Adfer Aberglasne ei achub rhag mynd i ebargofiant.


Beth am ysgrifennu eich stori i'r Wennol? Does dim rhaid iddi fod yn hir achos mae dysgwyr o bob safon eisiau darllen Y Wennol.

Pwy â wŷr, efallai byddech chi'n mwynhau'r profiad!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Ydych Chi'n Cofio mis Ebrill 1961?

gan Patrick Soper



Wedi'i eni mewn pentref dinod gorllewin Rwsia, y drydedd o bedwar plentyn, Yuri Alekseyevich Gagarin oedd mab saer coed a thyddynwr llaeth. Roedd y teulu yn dlawd ond, hyd yn oed gyda'i addysg yn cael ei aflonyddu gan oresgyniad y Natsiaid, roedd ganddo ddawn am fathemateg a gwyddoniaeth.

Yn ystod ei ardegau datblygodd diddordeb dwfn yn awyrennau a threuliai rhan o bob penwythnos gyda'i glwb hedfan lleol, yn hyfforddi fel cadlanc awyr. Erbyn 1955 yr oedd yn aelod o'r Llu Awyr Sofiet, wrth lyw MiG-15.

Lansiad chwiliedydd gofod Luna 3 gan Rwsia ym mis Hydref 1959 ganolbwyntiodd ei sylw ar raglen gofod Sofiet, gyda Rwsia ac America yn cystadlu am oruchafiaeth. Gwnaeth ef gais i hyfforddi fel gofodwr, a chafodd ei dderbyn.

Ar 12fed mis Ebrill 1961 esgynnodd y llong ofid Vostok 1 o faes rocedi Baikonur; yn y côn blaen oedd gofodwr cyntaf y byd, Yuri Gagarin, oed 27, dyn dewr heb ei ail.

Fel y cynllun, parhaodd yr hediad am 108 munud yn unig; ond dyma oedd dechrau'r oes gofod, wrth roi Rwsia o flaen NASA - gan fymryn. Ar ran America wnaeth Alan Sheperd cylchdroi'r byd dim ond tair wythnos yn ddiweddaraf, y 5edd mis Mai 1961.

Gyda'r llong ofod Vostok ('dwyrain') yn dechrau colli uchder wrth ddychwelyd i Kazakhstan, ymdaflodd Gagarin ar 23,000 droedfedd i ddisgyn gan barasiwt.

Arwr oedd ef. Mynychwyd ei gynhadledd i'r wasg gan ryw 1,000 newyddiadurwr a, dim ond dau ddiwrnod ar ôl ei hediad arloesol, safai miliynau o bobl wrth ochrau strydoedd brifddinas Rwsia i weld ei fodurgad buddugoliaethus yn mynd heibio. Yn ddiweddarach y byddai Gagarin yn ymweld â

dros 30 gwlad, gan gynnwys y DU. Ond nid yr Unol Daleithiau achos, fel dinesydd o Rwsia, roedd Gagarin yn 'berson annerbyniol'.

Wedi'i ddyrchafu i Gyrnol, bu farw Gagarin dim ond saith blynedd yn ddiweddarach, yn 34 oed, pan falodd y MiG-15 ei fod yn ei hedfan.

Nid yw achos y cwmpo i'r ddaear wedi cael ei ddatgelu erioed.

Ydych chi'n cofio?

Byd Natur – Mai 2026

gan Patrick Soper

Draenen ddu yw yn un o'n planhigion clawdd mwyaf cyffredin, ac mae ei blodau gwyn bach ar y llwyni rhwng mis Chwefror a mis Mawrth - golwg calonogol dros ben. Wrth i'r tymhorau fynd ymlaen dyma'r eirin surion bach yn ymddangos; bach, glasddu a chyda golwg yn debyg i eirin bychan ydyn nhw, ond gyda blas chwerw.

Gallwn ni gael gwared â'r chwerwder drwy roi'r aeron rydyn ni wedi'u casglu yn y rhewgell dros nos. Bydden nhw'n colli eu blas brathog wrth iddyn nhw ddadmer. Ac oherwydd eu croen tywyll, a'u bod mewn gwirionedd yn aelod o'r teulu eirin, maen nhw'n faethlon. Pam nag ychwanegu ychydig ohonyn nhw i salad ffrwyth, felly?

O dro i dro caiff y llwyni draen ddu eu heffeithio gan firws ffwng clwyf y boced gyda chanlyniad mae'r aeron yn hirsgwar ac yn wastad, gyda lliw hufennaidd. Does dim carreg gan yr 'aeron' afluniaidd ac ar ôl diwrnod neu ddau maen nhw'n troi'n frown ac yn syrthio i'r llawr. Fel arfer bydd y llwyni yn goroesi ac yn gallu cynhyrchu ffrwyth yn y dyfodol.

Dywedir mai gan Brydain gymaint â saith ar ddeg rhywogaeth o fursen. Mae mursennod yn tueddu i fod yn llai na gweision y neidr, a mwy sionc yw eu hehediad; hefyd, pan mae mursennod yn glanio maen nhw'n gallu plygu eu



Pocket Plum Fungus

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

pedair adain yn dwt gyda'i gilydd ar hyd eu cyrff - mae adenydd gweision y neidr, ar y llaw arall, yn aros ar agor yn llorweddol.



Banded Damselfly

Mae mursen fawr wych yn un o'n creaduriaid brodorol sydd yn byw yn bennaf mewn ardaloedd deheuol o Gymru, Lloegr ac Iwerddon, yn ymyl nentydd bywiog. Gyda'u lled adenydd o dros ddwy fodfedd, dyma un o'n mursennod mwyaf. Glaswyrdd yw eu cyrff gyda sglein fetelaidd, ac ar adenydd y gwrywod gwelir clwt tywyll, a gall adenydd y fenywaidd fod yn wyrdd fetelaidd neu euraidd. Gallwch eu gweld rhwng mis Mai ac Awst.

Bydd mursennod mawr wych yn dodwy eu hwyau yng ngwelâu lleidiog dŵr llifol yn hytrach nag mewn llynnoedd neu byllau, ond caiff llawer o'r nymffau eu bwyta gan bysgod. Mae mursennod yn bwydo ar amrywiad o drychfilod, a'u bod eu hunain yn cael eu bwyta gan ysglyfaethwyr megis gweision y neidr.

Y Cymry a Llundain

Sgwrs gan Martin Jones

i Gymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt


Adroddiad gan Rob Evans

Wrth gyrraedd y neuadd roeddwn i'n synnu bod y maes parcio yn llawn, doedd 'na ddim lle ar ôl ac roedd rhaid i mi grwydro er mwyn cael lle i barcio'r car, doedd dim rhaid i mi fynd yn bell. Er yn anghyfleus roeddwn i'n falch wrth feddwl bod gymaint o bobl wedi troi fyny, yn amlwg roedd bob aelod o'r Martin Jones Fan Club wedi cyrraedd! A fyddai le i mi? Ond wrth gyrraedd y neuadd dim ond bump o bobl oedd yna, felly pwy oedd pia'r ceir? Roedd gêm o bêl droed yn mynd ymlaen yn y cae wrth ochr y neuadd a dw i'n amau'n gref mai nhw oedd yn gyfrifol am lenwi'r maes parcio. Rhag eu cywilydd!

Roedden ni dipyn bach yn hwyr yn dechrau achos roedd cymaint o'n haelodau yn chwilio am le i barcio ond unwaith iddyn nhw gyrraedd roedd nifer reit dda yn eistedd i glywed beth roedd gan Martin i ddweud.

Mae gan Martin gysylltiad â Llundain achos teulu ei fam ac roedden nhw'n mynd yna ar wyliau bob blwyddyn ond dim ond yn ddiweddar mae o wedi cymryd mwy o ddi-ddordeb ac yn enwedig dylanwad y Cymry ar y ddinas. Roedd o'n canolbwyntio ar dair esiampl sef - Sir Hugh Myddleton, y diwydiant llaeth a'r siopau adrannol

Sir Hugh Myddleton - wedi ei eni yn ardal Dinbych yn 1560 ac yn fab i Richard Myddleton, llywodraethwr Castell Dinbych ac aelod seneddol dros Fwrdeistrefi Dinbych, symudodd Hugh i Lundain i fod yn brentis i gof aur. Dilynodd ei dad fel aelod seneddol yn 1603. Ond roedd yn ddyn aml talentog, i ddweud y lleiaf, ac yn entrepreneur. Roedd dŵr glân yn broblem



Cofeb Syr Hugh Middleton

fawr yn Llundain ar y pryd, y broblem oedd doedd ddim o'r fath beth ac roedd hyn yn effeithio ar iechyd pawb. Penderfynodd greu afon newydd o ddŵr glân yn rhedeg yr holl ffordd o swydd Hertford i ganol y ddinas. Bron yn syth roedd marwolaeth o achos heintiau wedi haneru. Mae'r afon yn dal yna ac yn dal yn cyflenwi 8% o ddŵr Llundain, nid yn unig hynny mae llwybr hyfryd a thawel wrth ochr yr afon. Mae'n debyg nad ydych wedi clywed am y dyn yma ond mae ei enw yn gyfarwydd i bobl Llundain achos yr holl gerfluniau ac enwau'r strydoedd.

Diwydiant Llaeth

Wrth symud i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg dyn ni'n dysgu bod llawer o'r Cymry wedi symud i Lundain i osgoi tlodi ofnadwy mewn ardaloedd fel Ceredigion a beth oedd yn fwy naturiol na dechrau gwerthu llaeth? Maen anodd dychmygu ble roedden nhw'n cadw'r fuwch, neu wartheg. Roedd llawer o siopau ac, i ddechrau, dim ond yn



Siop Llaeth

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

gwerthu llaeth a chynnyrch llaeth, ond wnaeth rhai datblygu i ddarparu llaeth o ddrws i ddrws. Merched cryf dros ben yn cario rhwng 100 a 130 o bwysau o laeth mewn bwcedi - gwaith caled iawn. Roedd y gwartheg yn cael eu cadw mewn iard, stabl yng nghefn yr adeilad, croglofft neu hyd yn oed, seler. 'Where there's a will, there's a way' ynte!

Roedd hyn yn ddiwydiant mawr iawn, yn 1865 roedd tua 12000 o wartheg yn y ddinas – yn bennaf yn y dwyrain. Ond does dim byd yn parhau am byth ac erbyn y bum degau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd morwynion llaeth bron wedi diflannu o strydoedd Llundain er, credwch byth, dim ond yn 1954 wnaeth y ceidwad gwartheg olaf cau.

Ond beth ddigwyddodd i'r morwynion llaeth?

Cawson nhw waith yn y **Siopau Adrannol**

Soniodd Martin am siopau adrannol Peter Jones, D. H. Evans a Dickens & Jones. Agorodd Peter Jones a Daniel Harries Jones siopau brethynnwr yn Llundain ac roedden nhw mor llywyddiannus roedden nhw'n cymryd drosodd y siopau cyfagos, tyfu a thyfu oedd yr hanes tan iddyn nhw dyfu i mewn i'r siopau rydyn ni'n gyfarwydd â nhw heddiw.

Mae hanes Dickens and Jones dipyn yn



Siop Adrannol Peter Jones

wahanol, John Pritchard Jones ydy'r Jones dan sylw, yntau hefyd yn frethynnwr o Gymru a ddoth yn bartner yn y cwmni ar ôl cyfres o ddyrchafiadau. Cafodd enw'r cwmni ei newid i Dickens & Jones. Roedd y cwmnïau yn cyflogi llawer, canran fawr wedi symud i Lundain o Gymru. Roedd lletyau a llawer o amwynderau ar gyfer y gweithwyr. Ac mae hanes y siopau yn werth ddarllen amdano.

Diolch yn fawr iawn i Martin am ei holl waith wrth roi hyn at ei gilydd. Noson gofiadwy dros ben!

Taith Beicio Velomaritime



Mikeal ac Yvonne Conq

Dydd Iau, Mehefin 19

Lassy-st-Barthelemy (39 km)

Heddiw, rydym yn cyrraedd rhanbarth adran Manche (rhif 50). Ar ôl Pas-de-Calais (62), Somme (80), Seine-Maritime (76), a Calvados (14), dyma'r bumed adran rydym wedi beicio drwyddi ers Mehefin 4.

Rydym yn agosáu at ein ddychwelyd i Lydaw!

Mae'r bryniau a'r disgyniadau'n dilyn ei gilydd eto. Nid ydym yn mynd drwy Vire; rydym yn dewis y llwybr byrraf, ond mae'r enillion uchder ar gyfer y diwrnod yn 550 m dros 39 km. Wrth gael picnic yn sgwâr tref Sourdeval, rydym yn dysgu bod y pentref wedi'i effeithio'n arw gan Frwydr Normandi ym 1944.



Cyfarfod â theulu Yvonne yn Normandi

Dyma ni nawr yn Saint Barthélémy, pentref amaethyddol bychan, prin ei boblogaeth, lle mae gennym y bleser o gwrdd â chwaer Yvonne a'i gŵr, sy'n teithio trwy Lydaw a'r Marne! Yna cawsom ni groeso gan deulu yn wreiddiol o Loegr. Mae Yvonne yn ymweld â'u gardd lysiau gynhyrchiol iawn tra byddaf yn iro ein cadwyni

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

beiciau. Mae eu cynhaeaf mafon yn anhygoel, ac rydyn ni'n ei fwynhau amser bwyd ac eto'r diwrnod canlynol!



Cartref Bobl o Loegr

Mae Rose a Dominic yn esbonio bod llawer o bobl Brydeinig yn byw yn adran Manche yn Normandi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae prisiau tai yn fwy fforddiadwy nag yn y DU. Rydym yn trafod dysgu ieithoedd yn gyffredinol, ac mae Rose yn trafod ei thrafferthion gyda Ffrangeg!



Mikeal o flaen cae o yd

Dydd Gwener, Mehefin 20 Saint-Barthélémy-Avranches (49 km)

Rydym yn mynd trwy Mortain ac yna Saint-Hilaire-du-Harcouët: parth sydd wedi gweld brwydrau angheuol yn ystod haf 1944, rhwng y Cynghreiriaid a'r Almaenwyr ar ôl glaniadau D-Day. Yna rydym yn mynd ar y Véloscénie, llwybr beicio sy'n cysylltu Paris â Mont-Saint-Michel. Hen linell reilffordd, mae'n wastad ac yn hawdd. Ar hyd y ffordd, rydym yn cwrdd â thwristiaid beicio eraill ac

yn stopio o flaen stondin menyw proffesiynol 70 oed sy'n gwerthu cremogau ar ochr y llwybr!

Rydym yn symud yn gyflym tuag at bont garreg Pontaubault. Mae ein ffrind Edith wedi

trefnu i gwrdd â ni yn y man gorffwys o flaen Afon Sélune. Mae hi'n dweud wrthym fod Pont Pontaubault wedi caniatáu i lawer o adrannau milwrol Americanaidd gyrraedd Llydaw i'w rhyddhau ym 1944.

Mae hi hefyd yn rhan o rwydwaith teithio beicio "Warmshowers," mae hi wedi aros yn ein cartref ni ym Mhlougin ddwywaith. Ar ei beic trydan, mae hi'n mynd â ni i Avranches, sydd wedi'i leoli ar ben bryn 3 km gyda graddiant o 5%. Er gwaethaf y gwres a fy 20 kg o fagiau, rwy'n ei dilyn.



Yvonne a'i Chwaer

Mae Yvonne yn cymryd ei hamser ond nid yw hi bellach yn cwyno am boen yn ei chefn. Mae popeth yn iawn. Mae Edith yn ein cyfeirio at Huguette's, lle rydym yn ysgafnhau ein bagiau cyn ymweld â'r ddinas.

Mae obelisk 14 m o uchder yn dominyddu'r groesffordd: mae'n gofeb i'r Cadfridog Patton a'i fyddin a wnaeth dorri i mewn 60 km i linellau'r gelyn ddiwedd mis Gorffennaf 44. Llwyddodd y milwyr Americanaidd i gymryd bron i 13,000 o garcharorion Almaenig. Daeth Patton yn ddinesydd anrhydeddus o ddinas Avranches. Yn gyflyn rhyddhaodd holl ranbarth gorllewinol Ffrainc.



Castell Avranches

Yna dringon ni i weld gweddillion y castell canoloesol. O ben y caer, cawsom olygfa hyfryd o Fae Mont Saint-Michel.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Diolch i Huguette a Robert, dau wedi ymddeol, a groesawsom ni'n garedig i'w cartref gyda'r nos. Maen nhw hefyd yn feicwyr rheolaidd; gwnaeth Huguette argraff arnom gyda'i pherfformiadau seiclo chwaraeon lefel uchel, ac mae eu hŵyr, Ewin, yn ei weld yn aml ar newyddion chwaraeon a beicio!

Geirfa

Amgueddfa Werin Cymru

Dychmygu - to imagine
Hudol - magical
Golygydd - editor
Hanesyddol - historical

'Man' Styc yn y Fan

Heulfan - Conservatory
Ymwybodol - conscious of
Cymdogion - neighbours
Tolc - dent
Cyfeiriad - direction
Disgyrchiant - gravity

Argyfwng yn y Mynyddoedd

Esgyn - to rise
Niwl - mist
Gwelededd - vision
Cwmpawd - compass
Iasol - warmly thrilling
Llonyddwch hedychlon - peaceful stillness
Awyrgylch - atmosphere
Cysylltiedig - connected
Cytgord - harmony
Ennyd - space of time
Tewychu - to thicken
Cyfuchliniau - contours
Amcangyfrif - estimate
Cyfradd - coordinate
Carnedd - cairn
Muriog - walled
Mat ewyn - foam mat
Bar egni - energy bar
Llystyfiant - vegetation
Diffeithlyd - desolate

Clwb Peldroed Wrecsam

Buddsoddi - to invest
Cynghraidd - league
Pencampwyr - champions
Dan ei sang - absolutely full up
Yn weithredol - actively
Cydymdeimlo - to sympathise

Cerddoriaeth Gymraeg

Gwyl - festival
Archwilio - research
Cenhadaeth - mission
Gwerin traddodiadol - traditional folk
Hen ffefrynnau - old favourites
Angerdd - passion
Arwyddocâd - significance
Dicter - anger
Brwydr - battle
Yn ysgafngalon - lighthearted
Amryddawn - versatile
Adlewyrchu - to reflect

Cymdeithas Hanes

Angerddol - passionate
Diwydiannol - industrial
Gweithfa haearn - iron works
Anhysbys - clandestine
Dadl - argument
Ymchwil - research

Ystlym - bat

Romeo and Juliet

Seiliedig ar - based on
Ymgyrchu - to campaign
Realeiddio - to realise (a dream)
Chwaethus - tasteful
Cyfweliad - interview
Cyfarwyddwr artistig - artistic director
Clasurol - classical
Angerdd - passion
Yr Wyddgrug - Mold
Cynhyrchiad - production

Diwydiant yn ei Lôn

Cynnyrch - product
Nwyddau - goods
Cyd-ddigwyddiad - coincidence

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Teilwr - tailor
 Dylunydd - designer
 Preswyl - residential
 Gwylaidd - modest
 Anabledau - disabilities
 Carthen - blanket
 Terfyn - end
 Arddangosfa - exhibition
 Gwehyddu - to weave
 Toriadau - cuts
 Soddgrwth - cello
 Ar ei liwt ei hun - on her own, self employed
 Tyngedfennol - fated
 Dylanwadol - influenced
 Croen dafad - sheepskin
 Cnu - fleece
 Mewnwadnau - insole
 Gwydn - tough

Gerddi Aberglasne

Dadfeilio - to go to ruin
 Camu i'r adwy - to step in (the gap)
 Cymwynasgar - benevolent
 Gorwario - to overspend
 Ailwampio - to revamp
 Ywen - yew tree
 Twlc moch - pig sty
 Esgeuluso - to neglect

Ydych chi'n cofio?

Saer coed - carpenter
 Tyddynwr - small scale farmer
 Goresgyniad - conquest
 Aflonyddu - to disrupt
 Cadlanc awyr - air cadet
 Chwiliedydd - explorer
 Canolbwyntio - to concentrate
 Goruchafiaeth - supremacy
 Gofodwr - spaceman
 Gan fymryn - by a short way
 Ymdaflu - to eject
 Modurgard - motorcade

Byd Natur

Draenen ddu - blackthorn
 Eirin surion - sour berries
 Maethlon - nutritious
 Hirsgwar - oblong

Afluniaidd - deformed
 Mursen - damselfly
 Gweision y neidr - dragonfly
 Ehediad - flight
 Llorweddol - horizontally
 Glaswyrdd - bluey-green
 Ysglyfaethwr - bird of prey

Y Cymry a Llundain

Rhag eu cywilydd - shame on them
 Siopau adrannol - department stores
 Bwrdeistref - borough
 Gof aur - goldsmith
 Haint - infection
 Cyflenwi - to supply
 Cyfarwydd - familiar
 Morwyn - servant
 Brethynnwr - draper
 Cyfagos - nearby
 Dyrchafiad - promotion
 Amwynderau - amenities

Taith Beicio

Dychwelyd - to return
 Byrraf - shortest
 Garw - badly
 Iro - to oil
 Cadwyn - chain
 Fforddiadwy - affordable
 Brwydrau angheuol - deadly battles
 Crempog - pancakes
 Man gorffwys - resting place
 Donimyddu - to dominate
 Carcharor - prisoner